**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
28 Ionawr 2021

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. O dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, mae'n ofynnol i is-etholiadau a ohiriwyd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned a oedd i fod i gael eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021 gael eu cynnal rhwng 1 Chwefror 2021 ac 16 Ebrill 2021.

1.2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio'r is-etholiadau hynny ymhellach fel ei bod yn ofynnol i'r is-etholiadau a ohiriwyd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned a oedd i fod i gael eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 28 Chwefror 2021 gael eu cynnal rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Llywydd wedi'i hysbysu y daw'r Rheoliadau i rym lai na 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad gosod.

2.2. Daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Ionawr 2021. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau ddigon o amser i baratoi ar gyfer yr is-etholiadau cyntaf a ohiriwyd a allai gael eu cynnal o fis Mawrth ymlaen. Pe bai'r rheol 21 o ddiwrnodau yn cael ei dilyn ar gyfer y Rheoliadau hyn, ni fyddent mewn grym erbyn y byddai angen i Swyddog Canlyniadau osod yr hysbysiad etholiad er mwyn cael yr is-etholiadau ym mis Mawrth. At hynny, daw'r cyfnod perthnasol a nodir yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 i ben ar 31 Ionawr 2021. Mae caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 1 Chwefror 2021 yn golygu na fydd bwlch yn y cyfnod perthnasol. O ystyried yr amgylchiadau hyn, credir bod lleihau'r cyfnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Mae'r pwerau i wneud y Rheoliadau hyn yn adrannau 67 a 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020.

3.2. Mewn perthynas ag etholiadau, mae adran 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud, trwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau canlyniadol, atodol, cysylltiedig, trosiannol neu arbed mewn cysylltiad ag adran 66 neu reoliadau a wneir o dan adran 67 o'r Ddeddf. Mae adran 67 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ohirio'r bleidlais ar gyfer sedd sy'n digwydd dod yn wag ar gyfer swydd cynghorydd

mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Mae'r Rheoliadau yn gohirio is-etholiadau llywodraeth leol penodol ymhellach o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. O dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, mae'n ofynnol i is-etholiadau a ohiriwyd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau tref a chymuned a oedd i fod i gael eu cynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021 gael eu cynnal rhwng 1 Chwefror 2021 ac 16 Ebrill 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio is-etholiadau ymhellach fel y byddant yn cael eu cynnal yn awr yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2021 a 6 Mai 2021.

4.2. Mae Rheoliad 2 yn diwygio dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 ac mae Rheoliad 3 yn diwygio dyddiadau perthnasol yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020.

## 5. Ymgynghori

5.1. Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Hysbyswyd Swyddogion Canlyniadau o'r bwriad i wneud y Rheoliadau i'w cynorthwyo yn eu paratoadau.

## 6. Asesiad effaith rheoleiddiol

6.1. Nid ystyrir bod y rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ariannol sylweddol, ac felly ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol.